# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Cytundeb ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Mon |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg |
| **Swyddog perthnasol:** | Gwern Ap Rhisiart<br>(Pennaeth Addysg) |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 14.10.25 |

## 1. Y Penderfyniad a Geisir

Ceisir y penderfyniadau isod:

1.1 Comisiynu'r Pennaeth Addysg i gynllunio sefydlu Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd erbyn Medi 2026, i gwrdd ag anghenion disgyblion Gwynedd yn y dyfodol ac yn sgil hynny diddymu'r trefniant cydweithio hanesyddol gyda Chyngor Ynys Môn.

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

2.1 Mae'r pwysau cynyddol a chynnydd yng nghymhlethdod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y sir yn golygu fod angen i ni ail-fodelu'r gwasanaeth presennol er mwyn gallu darparu'r gwasanaethau addas i bwrpas i gwrdd ag anghenion disgyblion y sir. Mae angen cefnogaeth y Cabinet i wneud y newid i'r ddarpariaeth gan gychwyn gyda ail ddylunio'r gwasanaethau cefnogol arbenigol a ddarperir i ddisgyblion mewn ysgolion prif lif. Fel cam cyntaf, mae'r Adran eisoes wedi adolygu'n darpariaeth Cynhwysiad a bu i'r Cabinet benderfynu sefydlu Unedau Cynhwysiad newydd. Mae'r adroddiad hwn yn delio gydag ail gam y newidiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymdopi gyda'r cynnydd sylweddol yn y galw am gefnogaeth ADY ers y cyfnod Covid.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### 3.1 Cefndir

3.1.1 Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad wedi bod yn darparu gwasanaeth ar y cyd i Gyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Mon ers 2017. Pan sefydlwyd y Gwasanaeth yn 2017 fe wnaethpwyd arbediad oddeutu 800k parhaol wrth sefydlu'r gwasanaeth. Yn ystod y blynyddoedd ers cyfnod COVID, mae'r pwysau ar y meysydd gwaith yma wedi cynyddu'n sylweddol, gyda chynnydd hefyd yng nghymhlethdod yr

achosion sy'n wynebu'r Timau arbenigol o ddydd i ddydd. Yn sgil hyn mae cyfeiriad strategol y cynghorau wedi dilyn llwybrau gwahanol mewn meysydd penodol, mewn ymateb i angen disgyblion y ddwy ardal.

**3.2 Beth sydd wedi arwain ni i'r pwynt yma?**

3.2.1 Mae sicrhau'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth gorau ar gyfer plant sydd gyda Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn un o flaenoriaethau Adran Addysg. Mae'r galw am ddarpariaeth dysgu ychwanegol wedi dwysáu, ac rydym yn gweld cynnydd mewn ymddygiad heriol a chymhlethdod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif.

3.2.2 Mae'r angen i reoli nifer fawr o staff, cynllunio yn strategol ar gyfer dau awdurdod, monitro cyllidebau integreiddio ar wahân, adrodd yn erbyn mesuryddion cynnydd gwahanol, darparu adroddiadau cynnydd ar adegau gwahanol, ymgymryd a phrosesau Arolygu Estyn ar wahân, ac mewn ffordd wahanol, yn rhoi pwysau sylweddol ar y Swyddogion sydd a rôl rheolaethol.

3.2.3 Mae'r Gwasanaeth yn rhannu i ddwy brif elfen sef:

a) Anghenion Dysgu Ychwanegol – mewnbwn ar gyfer dysgwyr gyda Anghenion e.e. gyda Cyfathrebu a Rhyngweithio, Nam Synhwyraidd neu angen corfforol a meddygol, anghenion penodol gyda datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd.

b) Cynhwysiad a Lles – mewnbwn ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, mewnbwn ar gyfer dysgwyr gyda Saesneg a Chymraeg yn iaith ychwanegol, a cynorthwyo i wella presenoldeb, mynediad i gwnsela.

c) Mae'r Seicolegwyr Addysgol a Tim Ansawdd ADY a CH yn gweithio ar draws y ddwy brif elfen.

3.2.4 Mae'r Cabinet eisoes wedi cymeradwyo addasiadau sylweddol i'r ddarpariaeth cynhwysiad (Cabinet Cyngor Gwynedd, Ebrill 2025; Atodiad 1), ac mae'r newid hwn wedi ei wneud i ddarpariaeth Gwynedd eisoes. Mae hynny mewn ymateb i'r cynnydd yn y maes cynhwysiad. Fodd bynnag ni wnaethpwyd penderfyniad ar y pryd sut i gyllido'r cynnydd mewn darpariaeth yn barhaol, gyda rhagrybudd bod bid refeniw parhaol yn debygol er mwyn ariannu'r ddarpariaeth ar ei newydd wedd. Mae'r bid refeniw wedi ei gyflwyno a caiff ystyriaeth.

3.2.5 Mae meysydd ADY hefyd yn gweld cynnydd mewn dwyster anghenion, a'r angen am wasanaeth i gefnogi, ac mae'r rhan hwn o'r gwasanaeth o dan bwysau cynyddol

hefyd, yn enwedig ers y cyfnod COVID. Cyflwynwyd y sefyllfa hwn i Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Ebrill 2025 (Atodiad 2).

3.2.6 Mae cynnydd wedi bod mewn ceisiadau am leoliad arbennig wrth i'r anghenion ddwysau. Ond mae gwaith mapio yn dangos nad yw hyn yn addas, gyda straen adnoddau yn y prif lif yn reswm allweddol dros y cynnydd mewn gofyn. Fel yn 3.2.5, fe drafodwyd hyn ym Mhwyllgor Craffu Addysg ac Economi, Ebrill 2025.

3.2.7 Er mwyn rhoi syniad o'r cynnydd yn y maes, gweler y tabl yn Atodiad 3 sy'n dangos y rhaniad yn y math o achosion ADY lle mae gan y disgybl Gynllun Datblygu Unigol. Rhwng 2022 a 2024 yn unig gwelwyd cynnydd syfrdanol o 37% - ni all ein cyfundrefn bresennol ymdopi gyda'r cynnydd ac mae angen gweithredu ar fyrder er mwyn gallu parhâi i gefnogi disgyblion, eu rhieni a'r ysgolion.

3.2.8 Rôl y timau arbenigol yn y gwasanaeth ADY yw cydweithio a chefnogi Ysgolion i allu ddarparu addysg i ddisgyblion sydd ag ADY a thrwy hynny eu galluogi i barhau mewn addysg prif lif yn eu hysgol leol, ac felly nad oes rheidrwydd mynychu Ysgol Arbennig. Mae'r timau yn cynnwys Seicolegwyr Addysg, Athrawon Arbenigol, Swyddogion Ansawdd, Cymorthyddion Arbenigol, Cwnselwyr, Swyddogion Lles Addysg.

3.2.9 Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ganddynt yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan yr ysgolion a hefyd gan rieni'r disgyblion. Heb fewnbwn y timau hyn, byddai'n amhosib i ysgolion prif lif ymdopi gyda chymhlethdod anghenion disgyblion gan arwain at lesteirio datblygiad disgyblion a chynnydd yn y galw am leoliadau mewn ysgolion arbennig. Mae data perfformiad y timau hyn yn tystiolaethu fod y bodlonrwydd cwsmer yn uchel ond fod galw am fwy o wasanaeth. Mae hefyd yn dangos fod y gwasanaeth a roddir yn arwain at gynnydd uniongyrchol yn natblygiad disgyblion ADY.

## 3.3 Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod a beth arall sydd angen ei gyflawni?

3.3.1 Mae darpariaeth Cynhwysiad Mon a Gwynedd yn dra gwahanol erbyn hyn, ers i Ynys Mon ail-strwythuro'r ddarpariaeth cynhwysiad uwchradd yn 2022. Yng Ngwynedd, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo darpariaeth Cynhwysiad ar gyfer anghenion Gwynedd (Atodiad 1).

3.3.2 Mae'r ffaith fod angen i ni allu ail ddylunio ein gwasanaethau ADY yng Ngwynedd hefyd, yn ogystal a'r newid sydd eisoes wedi digwydd yn y maes Cynhwysiad, yn golygu nad yw'r drefn hanesyddol o ddarparu Gwasanaethau ar y cyd gyda Chyngor Ynys Môn bellach yn hyfyw. Mae hyn yn arbennig o wir ar y lefel rheolaethol, gyda

chynifer o ddisgyblion angen cefnogaeth a chyfeiriad strategol yr Awdurdodau yn mynd i gyfeiriadau gwahanol mewn rhai meysydd. Yn unol a'r hyn sydd wedi ei nodi yn y cytundeb presennol gyda Cyngor Mon, mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi rybydd o fwriad i ail-edrych ar y cytundeb.

3.3.3 Mae gwaith modelu wedi ei wneud gennym i edrych ar beth fyddai ardrawiad cyllidol sefydlu'r Gwasanaeth ADY newydd yng Ngwynedd. Er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth does dim dwywaith y bydd cost uwch ond byddai hynny'n berthnasol pe byddem yn parhau i ddilyn y model hanesyddol ar y cyd gyda Môn ai peidio. Daw'r gost yn gliriach wrth i'r model newydd gael ei gytuno'r derfynol ond mae'r gwaith modelu cychwynnol yn awgrymu cost uwch oddeutu £200,000 i addasu'r Gwasanaeth ADY.

3.3.4 Bydd angen i'r Cabinet ystyried hyn wrth edrych ar yr holl fidiau eraill yn ystod yr Hydref, ond i raddau helaeth mae'r gost uwch yn anorfod os am allu darparu'r gefnogaeth sydd ei angen i ddisgyblion ADY Gwynedd.

3.3.5 Mae'n debygol y bydd cynnydd pellach yn y niferoedd disgyblion sydd angen cefnogaeth, ac yn sgil hynny bydd angen gwaith pellach (Cam 3) i edrych ar y gefnogaeth sydd yn yr ysgolion prif lif eu hunain. Bydd hynny'n heriol o gofio cymhlethdod presennol ein cyfundrefn ysgolion. Cyn hynny, rhaid cael gwell trefn ar ein trefniadau cefnogi o fewn yr Adran.

3.3.6 Byddai angen i unrhyw brosesau Adnoddau Dynol arferol fod yn rhan o'r newid hwn, yn cynnwys yr angen i weithredu hawliau TUPE gyda unrhyw newid mewn cyflogaeth i aelodau o'r tim.

**3.4 Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i dyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig). Yn unol a'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cynghorau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig a dal sylw dyledus at y dyletswydd cymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf. Bydd asesiad effaith yn cael ei baratoi fel rhan o'r broses hwn.

**3.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau lleisant sef

Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r Strategaeth wedi ei baratoi gan ddal sylw at y gofynion yma ac unol a'r 5 ffordd o weithio.

### 3.6 Beth yw'r egwyddorion fydd angen eu hystyried wrth sefydlu'r model newydd?

- Ymgynghori yn llawn gyda Swyddogion Cyngor Ynys Mon, a gyda staff y Gwasnaeth
- Model sydd yn cryfhau'r ymateb i anghenion Gwynedd
- Model sydd yn lleihau ar unrhyw haenau rheolaethol and oes eu hangen
- Model sydd yn ystyried posibilrwydd parhau i gydweithio gyda elfennau mwy prin/sgiliau mwy penodol o fewn y gwasanaeth
- Model sydd yn rhoi'r gwerth am arian gorau i Wynedd,

## 4. Camau Nesaf ac Amserlen

| | |
|---|---|
| **Hydref 2025** | Trafodaeth Tim Arweinyddiaeth ynglŷn a'r egwyddorion a phenderfyniad Cabinet i gomisiynu model newydd |
| **Hydref 2025** | Ymgynghori pellach gyda Swyddogion Cyngor Môn |
| **Tachwedd 2025 – Ionawr 2026** | Ymgynghori gyda staff ynglŷn a Modelau posib |
| **Ionawr – Chwefror 2026** | Sefydlu'r model terfynol |
| **Mawrth – Gorffennaf 2026** | Proses Ail-strwythuro |
| **Medi 2026** | Model newydd ar waith |

## 5. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 5.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn fodlon â chywirdeb yr wybodaeth ariannol sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

Mae swyddogion Cyllid yn parhau i gyd-weithio gyda'r gwasanaeth wrth i'r model newydd ddatblygu. Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r Adran Addysg dros y flwyddyn nesaf i adnabod cyfleon i ariannu'r cynnydd yn y costau fel bod modd osgoi neu leihau unrhyw ymrwymiad bid parhaol ar gyfer cyllideb 2026/27 ymlaen.

### 5.2 Swyddog Monitro

Mae'r penderfyniad a geisir yn seiliedig ar ddiddymu y bartneriaeth gyfredol gyda Ynys Mon ar gyfer darparu y gwasanaeth . Rwy'n nodi o'r adroddiad fod ymgysylltu a swyddogion Cyngor Mon yn un brif egwyddorion y broses. Fodd bynnag ddirwyn trefniant cyd-weithredol fel hyn i ben mae hefyd angen dal sylw a chyfarch yr agweddau cytundebol, adnoddau, rheoli gwybodaeth ac adnoddau dynol all fod yn berthnasol i gyflawni y newid. Dylai'r Adran sicrhau fel rhan o'r gwaith yma fod y

cynllun prosiect yn cynnwys camau ynglŷn a'r agweddau yma sydd angen eu cyfarch o'r cychwyn er sicrhau fod y newid model yn digwydd o fewn fframwaith eglur a phriodol .

**Rhestr Atodiadau:**

Atodiad 1 – Adroddiad Cabinet Ebrill 2025 (eitem Model Cynhwysiad)

Atodiad 2 – Adroddiad Craffu Ebrill 2025 (eitem ADY yn y Priflif ac Ysgolion Arbennig)

Atodiad 3 – Data ADY